

**Y Lleng Brydeinig Frenhinol a SSCE Cymru**  
**RBL100 Celf a Gair Llafar y Canmlwyddiant**  
**Canllawiau'r Gystadleuaeth**



**Cyflwyniad**

Crëwyd y Lleng Brydeinig Frenhinol ar 15 Mai 1921, gan gyfuno pedwar sefydliad cenedlaethol o gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog a oedd wedi cael eu sefydlu ers y Rhyfel Byd Cyntaf. Rydym ni wedi bod yma ers 100 mlynedd a byddwn yn parhau i fod yma am y 100 mlynedd nesaf.

Y Lleng yw elusen fwyaf ac uchaf ei pharch y Lluoedd Arfog yn y DU, a'i phrif amcanion i gefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog yw'r canlynol:

- Rydym yn darparu gwasanaethau lles.
- Rydym yn ymgyrchu.
- Rydym yn cofio.
- Rydym yn darparu gwasanaethau aelodaeth.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am waith y Lleng Brydeinig Frenhinol a'n canmlwyddiant [yma](#).

I helpu i ddathlu a nodi'r garreg filltir hynod bwysig hon yn hanes y Lleng Brydeinig Frenhinol yng Nghymru, rydym ni wedi creu partneriaeth â [Chefnogi Plant Milwyr mewn Addysg Cymru \(SSCE\) Cymru](#) i ddarparu cyfleoedd cystadlaethau i blant a phobl ifanc ledled Cymru a fydd yn addysgu, yn rhoi gwybodaeth a hefyd yn eich helpu i ddathlu'r flwyddyn bwysig hon.

Pan fyddwn wedi dewis ein henillwyr, caiff eu gwaith ei arddangos yn ein Gŵyl Goffa Cymru flynyddol yn 2021, sydd wedi'i threfnu ar gyfer dydd Sadwrn 6 Tachwedd yn Neuadd Dewi Sant.



### **Categoriâu'r Gystadleuaeth**

Mae dwy ffordd y gall pobl ifanc (hyd at 18 oed) ledled Cymru gymryd rhan.

#### **Cystadleuaeth Gair Llafar**

- Creu darn o air llafar – gallai hyn fod yn gerdd, geiriau i gân, rap neu unrhyw beth sy'n adlewyrchu ein canmlwyddiant yn eich tyb chi.
- Ni ddylai'r darn terfynol fod yn fwy nag un ochr A4 neu uchafswm o ddwy funud ar gyfer darn o waith a recordiwyd.
- Gellir ei wneud yn eich iaith ddewisol (Cymraeg neu Saesneg)
- Byddwn yn derbyn cynigion gan unigolion neu grwpiau bach (uchafswm o 4 o bobl).

#### **Cystadleuaeth Gelf**

- Crëwch ddarn o waith yn eich cyfrwng dewisol (pensil, paent, creon, pen, collage ayyb) rydych chi'n teimlo sy'n cyfleu pwysigrwydd ein gwaith a'r flwyddyn hon, sef ein canmlwyddiant. (Yr unig eithriad yw na ddylai cynigion gael eu creu gan gyfrifiadur)
- Ni ddylai'r gwaith sy'n cael ei gyflwyno fod yn fwy nag A2 – (420 x 594 mm 16.5 x 23.4 modfedd)
- Gellir ei gynhyrchu yn ddu a gwyn, yn lliw neu mewn cymysgedd o gyfryngau.
- Caiff cynigion gan unigolion neu grwpiau bach (uchafswm o 4 o bobl) eu derbyn.

## Dim ond cynigion o Gymru a fydd yn cael eu derbyn.

### Ystodau oedran y gystadleuaeth

Caiff cynigion i'r gystadleuaeth eu barnu yn seiliedig ar y grwpiau oedran canlynol:

- 7 i 10 oed
- 11 i 13 oed
- 14 i 16 oed
- 17 i 18 oed



### Meini Prawf Beirniadu

Caiff y cynigion celf a gair llafar eu marcio allan o gyfanswm posib o 100 pwynt. Caiff y dyraniad terfynol eu rhannu fel a ganlyn:

Caiff yr un broses ei defnyddio ar lefel paneli rhanbarthol a chenedlaethol.


| Thema         | Uchafswm y sgôr sy'n bosib | Meini prawf marcio   |
|---------------|----------------------------|--|
| Gwreiddioldeb | 20                         | A yw'n dangos gwreiddioldeb?<br>A yw'n denu sylw'r gynulleidfa?                    |
| Effaith       | 20                         | A yw'n ysbrydoli'r gynulleidfa?<br>A yw'n peri i'r gynulleidfa feddwl neu fyfyrto? |
| Eglurder      | 25                         | A yw'r cynnwys yn glir?  |

|                       |    |  |
|-----------------------|----|--|
|                       |    | A yw'r neges yn gryno?<br>A yw'r neges gyffredinol yn gwneud effaith ar y gynulleidfa?     |
| Cyfansoddiad          | 20 | A yw'r darn o waith yn gytbwys?<br>A yw'n dilyn meini prawf a chanllawiau'r gystadleuaeth? |
| Canmlwyddiant y Lleng | 15 | A yw'r darn o waith yn cyfleu ac yn adlewyrchu RBL100?                                     |

### Sut caiff y gystadleuaeth ei beirniadu?

Drwy bartneriaeth â SSCE Cymru, caiff y gystadleuaeth ei beirniadu gan banel rhanbarthol, ac yna panel cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r pedwar rhanbarth i gyd yn seiliedig ar ardaloedd Swyddogion Ymgysylltu ag Ysgolion Rhanbarthol SSCE Cymru, a cheir manylion yn y map isod:

## Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer Plant y Lluoedd Arfog yng Nghymru



### Cyfansoddiad y Panel:

Bydd pob panel rhanbarthol yn cynnwys y canlynol:

- Swyddog Ymgysylltu ag Ysgolion Rhanbarthol SSCE Cymru ar gyfer y rhanbarth hwnnw
- Swyddog Cymorth Aelodaeth y Llang Brydeinig Frenhinol ar gyfer y rhanbarth hwnnw
- Uwch-gynrychiolydd o Aelodaeth y Llang Brydeinig Frenhinol ar gyfer y rhanbarth hwnnw
- Codwr Arian yn y Gymuned y Llang Brydeinig Frenhinol ar gyfer y rhanbarth hwnnw
- Prif athro/athrawes neu ddirprwy enwebedig ar gyfer y rhanbarth hwnnw

Bydd y panel cenedlaethol yn cynnwys:

- Rheolwr Rhaglen SSCE Cymru
- Rheolwr y Llang Brydeinig Frenhinol yng Nghymru
- Rheolwr Codi Arian yn y Gymuned y Llang Brydeinig Frenhinol yng Nghymru
- Uwch-gynrychiolydd Aelodaeth y Llang Brydeinig Frenhinol yng Nghymru
- Cynrychiolydd maes celf a'r gair llafar o Gymru.

### Amserlen y gystadleuaeth

- Mawrth 2021: Cyhoeddi'r gystadleuaeth
- Dydd Llun 16 Gorffennaf 2021: Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau
- Awst: Paneli rhanbarthol i ddod at ei gilydd i benderfynu ar ennillwyr ym mhob categori.
- Erbyn 31 Awst: Cyhoeddi'r ennillwyr rhanbarthol.
- Medi 2021: Panel cenedlaethol i ddod at ei gilydd i benderfynu ar y tri ennillydd ym mhob categori.
- Erbyn 31 Medi: Cyhoeddi'r ennillwyr cenedlaethol.
- 6 Tachwedd 2021: Gwaith enillwyr yn cael ei arddangos yng Ngŵyl Goffa Cymru 2021 yn Neuadd Dewi Sant

### Y broses cymryd rhan

- Caiff cynigion eu cyflwyno yn unol â'r amserlenni a amlinellwyd uchod hyd at 23:59 ddydd Llun 26 Gorffennaf 2021.

- Bydd yn rhaid i bob cynnig gael ei gyflwyno gyda chopi o'r 'Ffurflen Gyflwyno' wedi'i chwblhau'n gywir (Gweler Atodiad A).
- Derbynnir cynigion yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- Byddwn yn derbyn y dulliau canlynol o gynigion:
  - Y darnau gwreiddiol o waith
  - Llungopiau o safon (dylai'r rhain fod yr un maint â'r darn o gelf a grëwyd)
  - Sganiau PDF drwy e-bost.
- Dylid anfon cynigion drwy'r post i'r cyfeiriad isod:

**Gweinydd yr Ardal**

**Y Llang Brydeinig Frenhinol yng Nghymru**

**C/O 18/19 Yr Heol Fawr**

**Caerdydd**

**CF10 1PT**

- E-bostiwch gynigion i: [shaines@britishlegion.org.uk](mailto:shaines@britishlegion.org.uk)
- Gan ddibynnu ar nifer y cynigion, efallai na fyddwn ni'n gallu dychwelyd cynigion.
- Mae penderfyniadau'r panel beirniadu yn derfynol.

#### Nodiadau terfynol i athrawon a gweithwyr ieuentid etc

- Rydym yn deall bod cwmpas y ddwy gystadleuaeth hyn yn amrywiol iawn.
- Hoffem ni i bobl ifanc ystyried pwysigrwydd gwaith y Llang Brydeinig Frenhinol a'i heffaith dros y 100 mlynedd diwethaf ond yn ogystal â hynny, ein gwaith yn y dyfodol.
- Gallai'r gystadleuaeth hon fod yn gyfle i ddefnyddio Adnoddau Addysgu Coffa'r Llang. Gellir eu cyrchu yma: <https://www.britishlegion.org.uk/get-involved/remembrance/teaching-remembrance>.
- Hoffem ni i bobl ifanc fod mor greadigol â phosib a phan fydd yn bosib, meddwl ymhellach na chonfensiwn.
- Gan ddibynnu ar gyfyngiadau COVID ym mis Tachwedd eleni, efallai y bydd cyfle i bobl ifanc fynd i Neuadd Dewi Sant a chymryd rhan yn y perfformiad. Os na fydd hyn yn bosib, bydd cyfleoedd eraill i gydnabod y bobl ifanc a diolch iddynt yn cael eu hystyried.